



Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS WENER 10 TACHWEDD 2017 AM 6.00 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2017

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol gan gynnwys Mrs Nerys Lewis, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Uniongyrchol Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion a Peter Skitt, Hywel Dda. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Sue Darnbrook a fu'n methu bod yn bresennol oherwydd materion personol teuluol. Soniwyd mai Cyng Ann Jones oedd cynrychiolydd y Cyngor Tref Tregaron ar Fwrdd Rhanddeiliaid Prosiect Cylch Caron. Derbyniwyd trosolwg cryno o'r sefyllfa bresennol lle cylchredwyd copïau o'r cynllun yn ystod y cyfarfod a chynhelir sesiwn i ofyn cwestiynau. Yn dilyn nifer o ymgynghoriadau cymunedol gyda gwahanol gyrff a sefydliadau, lle ystyriwyd adolygiad o anghenion a gofynion y claf â'r staff proffesiynol, roedd Aelodau'r Bwrdd Prosiect yn gallu gwarantu cyfleuster tebyg i debyg ar sail y cyfleusterau presennol sydd ar gael. Rhagwelir y byddai gwaith yn dechrau yn y Gwanwyn 2018 ac y dylid ei gwblhau o fewn 18-20 mis heb unrhyw fwrdd i gau adeiladau presennol hyd nes i'r prosiect gael ei gwblhau'n llawn. Diolchwyd i'r ddau am fynychu'r cyfarfod a rhoi braslun o'r cynlluniau i'r cyfarfod.

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Karine Davies, Cyng Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Arwel Jones, Alun Owen, June Owens, Gary Rees a Cyng Rhydian Wilson

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng Manon Wyn James.

3. **MATERION PERSONOL**

Dim i'w gofnodi.

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**

DATGAN DIDDORDEB : [Cyng Catherine Hughes](#)

5. **CADARNHAU COFNODION 13 HYDREF 2017**

Cynnig: Cyng Alun Owen

Eilio: Cyng Gary Rees

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

6.1 Clerc i dderbyn caniatâd oddi wrth Mr Geoffrey Hughes i ddefnyddio logo'r Cyngor Tref ar y sticeri gan fod hawlfraint y logo efo Mr Hughes. Derbyniwyd amcan bris oddi wrth Mrs Gwenan Hodgson, GG Designs am oddeutu 80 sticeri meintiau gwahanol a 4 hir ar gyfer arwydd y parc, pris a dderbyniwyd £25 + TAW. Cytunwyd i'w archebu ar ôl derbyn caniatâd hawlfraint Mr Hughes.

6.2 Trosglwyddwyd ffurflenni gwneud arolwg ar y parc i Cyng Gwilym Jenkins.

6.3 Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Mr Adrian Davies ei fod yn mynd i ymgymryd â gwaith llenwi'r tyllau efo rwber yn y parc o hyn i ddiwedd y flwyddyn.

6.4 Derbynnir amcan bris ar lafar oddeutu £60-£70 trwy law Cyng June Owens oddi wrth Mr Aled Jones, 4 Maesyrawel i wneud sedd bren newydd ar gyfer y ceffyl siglo yn y parc. Ni fyddai'r sedd yr un siâp ond fyddai'n ddigon tebyg. Soniwyd bod angen trwsio'r twnnel hefyd. Cytunwyd i Mr Jones ymgymryd â'r gwaith erbyn y cyfarfod nesaf.

- 6.5 Clerc ddim wedi cael unrhyw ymateb oddi wrth Technoleg Taliesin am y posibilrwydd o ddefnyddio app cyfieithu ar y gwefan. Gofynnir i'r Clerc gadw ymlaen i gysylltu ond trafodwyd cwmnïau eraill a fyddai'n gallu ceisio ar y gwaith o bosibl.
- 6.6 Cynhelir cyfarfod agored ar nos Lun 16 Hydref 2017 i ddiweddarau'r cyhoedd am sefyllfa'r Ganolfan Hamdden, dim wedi'u harwyddo eto ond y cyfan bron yn barod. Pwyntiau wedi codi ynglŷn â'r aswariant yr adeilad.
- 6.7 Cyng Catherine Hughes i wneud ymchwil pwy sy'n eiddo i'r clawdd sydd angen ei dorri am y ffordd lawr o Argoed i Fferm Argoed.
- 6.8 Clerc i ofyn i'r Gweithiwr Strydlun i lanhau'r arwyddion i gyd gorau gall i weld pa gyflwr sydd arnynt wedi'r glanhau cyn penderfynnu ar y cam nesaf.
- 6.9 Cyng Alun Owen ddim wedi cysylltu â thrafod efo Mr Eifion Davies, Llys Caron i ymgymryd â gwaith cynrychiolydd cynllun llyfogydd cymunedol ac i fod yn bwynt cyswllt efo Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 6.10 Mr Simon Crowe yn cadarnhau bod BT yn mynd i ymgymryd â'r gwaith o dorri'r coed nol ar y ffordd lan am Nantcoy yr un pryd a byddant yn torri'r coed ar gyfer gosod llinellau ar gyfer derbyn ffibr optig.
- 6.11 Cyngor Sir Ceredigion wedi gosod piben yn nhransh ar gyffordd Llettyfeurig.
- 6.12 Ni dderbynnir unrhyw sylwadau ar gyfer ymateb erbyn 21 Rhagfyr 2017, i ymgynghoriad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
- 6.13 Soniwyd fod Mr Huw Williams, Pennaeth Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig ad-daliad i rieni oedd eisoes wedi talu ffioedd defnyddio'r pwll nofio yn Nhregaron, tra bod y pwll ar gau.
- 6.14 Cywiriad i gofnodion 13 Hydref 2017 i'w nodi mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd oedd wedi cymeradwyo'r cais, a ddaeth i law dros gyfnod yr haf, i gefnogi cadw Bodlondeb ar agor ac nid pwyllgor y Cyngor Tref.

7. **CYFRIFON**

- 7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun £150.10
7.2 Cyflog Clerc £237.60
7.3 Balans y praesept wedi'u fancio £5,833.33

Cynnig: Cyng Catherine Hughes

Eilio: Cyng Arwel Jones

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Gofynnir i'r gweithiwr strydlun glanhau'r arwyddion glas oedd yn croesawu mewn i Dregaron ac i barhau efo glanhau'r dref. Angen chwynnu oddi amgylch y dref, Clerc i gysylltu â Mr Gerwyn Jones am ganllawiau ar gyfer defnyddio'r deunydd pwrpasol a hefyd oedd angen trwydded arbennig ar Mr Noel Jones. Angen brwsio lan o Fanog i Blaencaron.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 9.1 Rhif y Cais: A170985
Y Bwriad: Dymchwel ystafell haul presennol a chodi estyniad unllawr i'r cefn a chodi estyniad llawr cyntaf dros y brif byngalo.
Safle: Ger yr Afon, Tregaron
[DATGAN DIDDORDEB: Cyng Gary Rees](#)
Cynnig: Cyng Catherine Hughes
Eilio: Cyng Ann Jones

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

Dim i'w gofnodi.

12. **UN LLAIS CYMRU**
Cadeirydd wedi mynychu Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru ar 18 Hydref 2017 a derbyniwyd adroddiad ar lafar ganddo gan gynnwys bod yna fwy o gyfrifoldebau yn mynd i ddod ar y Cynghorwyr Cymunedol a Thref yn y dyfodol. Atgoffwyd cynghorwyr bod mwy o wybodaeth am fodiwlau penodol ar gael ar wefan Un Llais Cymru. Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ardal ym mis Ionawr 2018.
13. **CINIO BLYNYDDOL**
Cynhelir cinio blynyddol y Cyngor Tref ar nos Sadwrn 20fed o Ionawr 2018 am 7yh yn y Clwb Rygbi. Bwydlen i ddilyn.
14. **EISTEDDFOD 2020**
Yn dilyn cais gwreiddiol am ddiddordeb safle Eisteddfod 2020 nol ym mis Mawrth 2016, derbyniwyd ymholiad pellach i ymweld â'r safleoedd mewn golwg i drafod ymhellach. Trefnwyd mynd a swyddogion Eisteddfod Genedlaethol oddi amgylch y safleoedd a soniwyd byddai'r rhestr fer wedi'u llunio erbyn Ionawr 2018.
15. **PRESENOLDEB Y CYHOEDD YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR DREF (Cyng Karine Davies)**
Roedd cyfarfodydd y Cyngor Tref yn agored i'r cyhoedd i fynychu.
16. **CYNLLUNIO I DDYFODOL Y GYMUNED (Cyng Karine Davies)**
Cyng Karine Davies yn sylwi o'r cofnodion blaenorol fod na ddim cynllun tymor hir yn amlwg. Sylwer fod gymaint o bethau i drafod ynglyn ar gymuned e.e. a ddylai'r Cyngor Tref fod yn fwy proactive yn darganfod beth yw'r anghenion? Soniwyd fod trefniadau ar y gweill i Cyng Catherine Hughes wahodd aelod o CAVO i ddod allan i sgwrsio efo'r cynghorwyr am gynllun o adfywio Tregaron.
17. **GOHEBIAETH**
17.1 Ymholiad wedi'u dderbyn drwy e-bost oddi wrth Rafi Ilivitzky, Trail Tale, i ychwanegu manylion pwyntiau treftadaeth o Dregaron ar ei app Trailtale. Gofynnir i'r Clerc drosglwyddo'r ymholiad i Mr Dafydd Wyn Morgans, Clwb Cerdded Tregaron.
18. **UNRHYW FATER ARALL**
18.1 Clerc i archebu coed Nadolig i'r sgwâr a thu allan i P R Methuen, Siop Ffrwythau a Llysiau yn ôl yr arfer.
18.2 Soniwyd am ddiffyg presenoldeb y fan Llyfrgell yn Nhregaron yn ddiwedd, Clerc i gysylltu â Mr Arwyn Morris a Mr Dafydd Edwards.
18.3 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddiwrth PCSO am y digwyddiadau yn y Dref yn ddiweddar.
18.4 Dwr dwfn yn cronni rhwng Fforest ag Abercoed angen sylw brys, biben o dan y ffordd wedi torri ag angen culvert newydd.
18.5 Postyn golau stryd yn y maes Parcio Y Pentref wedi cael ei fwrw efo cerbyd angen sylw'r Cyngor Sir.
18.6 Lamp golau stryd ddim yn gweithio lawr Doldre, Cyng Catherine Hughes wedi adrodd i'r Cyngor Sir.
18.7 Ymgynghoriad Gwasanaethau Casglu Gwastraff eisoes wedi'u gylchredeg drwy e-bost, gan nodi ar ddyddiad cau'r ymgynghoriad yn 22 Rhagfyr 2017.